

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU
2021 Rhif (Cy.)
LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae'r rheoliadau hyn yn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin, a chaiff y swyddogaethau a ganlyn eu harfer gan y corff hwn:

- (1) y swyddogaeth llesiant economaidd,
- (2) y swyddogaeth cynllunio datblygu strategol, a
- (3) y swyddogaeth o ddatblygu polisiau trafndiaeth.

Mae 5 Rhan i'r Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 1 yn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin, a'i ardal.

Mae Rhan 2 yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Mae'r Atodlen hon yn cynnwys trefniadau cyfansoddiadol Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin.

Mae Rhan 3 yn nodi aelodaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin. Yn unol â'r Rhan hon, bydd y corff wedi ei ffurfio o 4 aelod cyngor, aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a chaiff gynnwys aelodau cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio neu nad oes â'r hawl honno.

Mae Rhan 4 yn nodi'r swyddogaethau a arferir gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin. Mae'r Rhan hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 2 i'r Rheoliadau sy'n cynnwys rhagor o fanylion ynghylch y swyddogaeth o ddatblygu polisiau trafndiaeth.

Mae Rhan 5 yn nodi sut y mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin i'w ariannu.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU
2021 Rhif (Cy.)
LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin 2021

Gwnaed ***
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru ***
Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (sy'n ymwneud ag amodau ymgynghori) wedi eu bodloni.

Enwi a chychwyn

Rheoliad 1

Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin 2021, a deuant i rym ar ***.

Dehongli

Rheoliad 2

Yn y Rheoliadau hyn—
ystyr “aelod” (“member”) yw—

- (a) aelod cyngor;
- (b) aelod Bannau Brycheiniog;
- (c) aelod Arfordir Penfro;
- (d) aelod cyfetholedig;

ystyr “aelod â phleidlais” (“voting member”), mewn perthynas ag unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan CBC y De-orllewin, yw—

- (a) aelod cyngor;
- (b) pan fo'r cwestiwn yn ymwneud ag arfer swyddogaethau cynllunio strategol, aelod Bannau Brycheiniog;
- (c) pan fo'r cwestiwn yn ymwneud ag arfer swyddogaethau cynllunio strategol, aelod Arfordir Penfro;
- (d) aelod cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio ar y cwestiwn yn rhinwedd rheoliad 8(6);

mae i “aelod Arfordir Penfro” (“the Pembrokeshire Coast member”) yr ystyr a roddir gan reoliad 7(6);

mae i “aelod Bannau Brycheiniog” (“the Brecon Beacons member”) yr ystyr a roddir gan reoliad 7(1);

mae i “aelod cyfetholedig” (“co-opted member”) yr ystyr a roddir gan reoliad 8(2);

mae i “aelod cyngor” (“council member”) yr ystyr a roddir gan reoliad 6(2);

mae i “ardal CBC” (“CJC area”) yr ystyr a roddir gan reoliad 4;

ystyr “Awdurdod Parc Cenedlaethol” (“National Park Authority”) yw awdurdod yng Nghymru a sefydlir o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995⁽¹⁾;

ystyr “cyngor cyfansoddol” (“constituent council”) yw—

- (a) cyngor sir Abertawe;
- (b) cyngor Castedd-nedd Port Talbot;
- (c) cyngor sir Gaerfyrddin;
- (d) cyngor sir Penfro;

ystyr “prif aelod gweithrediaeth” (“senior executive member”) yw—

- (a) yn achos cyngor cyfansoddol sy’n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet, yr arweinydd gweithrediaeth;
- (b) yn achos cyngor cyfansoddol sy’n gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, y maer etholedig;

ystyr “rheolau sefydlog” (“standing orders”) yw’r rheolau sefydlog a wneir o dan baragraff 10 o Atodlen 1;

mae i “swyddog gweithredol” (“executive officer”) yr ystyr a roddir gan baragraff 5 o Atodlen 1;

ystyr “swyddogaethau cynllunio strategol” (“strategic planning functions”) yw—

- (a) swyddogaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004⁽²⁾ (gweler rheoliad 11), a
- (b) unrhyw swyddogaethau sy’n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau hynny neu’n ffafriol iddynt.

RHAN 1

Sefydlu ac ardal

Sefydlu

Rheoliad 3

- (1) Sefydlir corff corfforedig o’r enw Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (“CBC y De-orllewin”).
- (2) Mae gan CBC y De-orllewin y swyddogaethau—
 - (a) a roddir iddo gan y Rheoliadau hyn, a
 - (b) a roddir iddo, a osodir arno neu a ddirprwyir iddo, gan unrhyw ddeddfiad arall (pryd bynnag y cafodd ei basio neu ei wneud).

Ardal

Rheoliad 4

Mae ardal CBC y De-orllewin wedi ei ffurfio o ardaloedd y cynghorau cyfansoddol.

RHAN 2

Cyfansoddiad

¹ 1995 p. 25

² 2004 p. 5

Cyfansoddiad

Rheoliad 5

Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad CBC y De-orllewin.

RHAN 3

Aelodaeth

Aelodaeth ac aelodau cyngor

Rheoliad 6

- (1) Aelodau CBC y De-orllewin yw—
 - (a) y 4 aelod cyngor,
 - (b) aelod Bannau Brycheiniog (ond gweler rheoliad 7),
 - (c) aelod Arfordir Penfro (ond gweler rheoliad 7), ac
 - (d) unrhyw aelodau cyfetholedig (gweler rheoliad 8).
- (2) Mae prif aelod gweithrediaeth pob cyngor cyfansoddol yn aelod cyngor.
- (3) Mae person yn peidio â bod yn aelod cyngor o CBC y De-orllewin os yw'r person yn peidio â bod yn brif aelod gweithrediaeth cyngor cyfansoddol.
- (4) Pan fo swydd prif aelod gweithrediaeth cyngor cyfansoddol yn wag, rhaid i'r cyngor cyfansoddol benodi aelod o'r cyngor cyfansoddol i weithredu fel aelod cyngor o CBC y De-orllewin hyd nes y bydd y swydd wag wedi ei llenwi.

Aelod Bannau Brycheiniog ac Aelod Arfordir Penfro

Rheoliad 7

- (1) Rhaid i aelod Bannau Brycheiniog gael ei benodi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ("yr Awdurdod").
- (2) Ni chaiff yr Awdurdod ond penodi yn aelod Bannau Brycheiniog—
 - (a) cadeirydd yr Awdurdod,
 - (b) dirprwy gadeirydd yr Awdurdod, neu
 - (c) cadeirydd unrhyw bwyllgor sy'n gyfrifol am faterion cynllunio all gael ei sefydlu gan yr Awdurdod.
- (3) Fodd bynnag, nid yw aelod Bannau Brycheiniog yn aelod o CBC y De-orllewin ond mewn perthynas ag arfer swyddogaethau cynllunio strategol.
- (4) Mae aelod Bannau Brycheiniog yn peidio â bod yn aelod Bannau Brycheiniog os yw'r person hwnnw yn peidio â dal unrhyw swydd a grybwyllir ym mharagraff (2).

- (5) Rhaid i aelod Arfordir Penfro gael ei benodi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (“ Awdurdod Arfordir Penfro”).
- (6) Ni chaiff Awdurdod Arfordir Penfro ond penodi yn aelod Arfordir Penfro—
 - (a) cadeirydd Awdurdod Arfordir Penfro,
 - (b) dirprwy gadeirydd Awdurdod Arfordir Penfro, neu
 - (c) cadeirydd unrhyw bwyllgor sy'n gyfrifol am faterion cynllunio all gael ei sefydlu gan Awdurdod Arfordir Penfro.
- (7) Fodd bynnag, nid yw aelod Arfordir Penfro yn aelod o CBC y De-orllewin ond mewn perthynas ag arfer swyddogaethau cynllunio strategol.
- (8) Mae aelod Arfordir Penfro yn peidio â bod yn aelod Arfordir Penfro os yw'r person hwnnw yn peidio â dal unrhyw swydd a grybwyllir ym mharagraff (6).

Aelodau cyfetholedig

Rheoliad 8

- (1) Caiff yr aelodau cyngor benodi aelodau eraill i CBC y De-orllewin.
- (2) Yn y Rheoliadau hyn, cyfeirir at aelod a benodir o dan baragraff (1) fel “aelod cyfetholedig”.
- (3) O ran unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan CBC y De-orllewin, ni chaniateir i nifer y pleidleisiau y gellir eu bwrw gan aelodau cyfetholedig fod yn fwy na—
 - (a) nifer y pleidleisiau y caniateir eu bwrw gan aelodau cyngor, neu
 - (b) pan fo'r cwestiwn yn ymwneud ag arfer swyddogaethau cynllunio strategol, nifer y pleidleisiau y caniateir eu bwrw gan aelodau cyngor, aelod Bannau Brycheiniog ac Aelod Arfordir Penfro.
- (4) Penodir aelod cyfetholedig—
 - (a) am gyfnod a bennir gan yr aelodau cyngor, neu
 - (b) os nad yw unrhyw gyfnod wedi ei bennu, hyd nes y terfynir y penodiad gan yr aelodau cyngor.
- (5) Pan fo cyfnod wedi ei bennu o dan baragraff 8(4)(a), caniateir er hynny i'r aelodau cyngor derfynu penodiad yr aelod cyfetholedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.
- (6) Rhaid i'r aelodau cyngor, wrth benodi aelod cyfetholedig—
 - (a) penderfynu pa un a gaiff yr aelod cyfetholedig bleidleisio yng nghyfarfodydd CBC y De-orllewin, a
 - (b) penderfynu na chaniateir i aelod cyfetholedig bleidleisio ond mewn perthynas â'r materion hynny a bennir gan yr aelodau cyngor.

RHAN 4

Swyddogaethau

Llesiant economaidd

Rheoliad 9

Rhoddir y swyddogaeth llesiant economaidd i CBC y De-orllewin (gweler Rhan 5⁽³⁾ o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

Trosglwyddo etc. y swyddogaeth o ddatblygu polisiau trafndiaeth

Rheoliad 10

- (1) Mae'r swyddogaeth o ddatblygu polisiau o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000⁽⁴⁾ ("Deddf 2000"), mewn cysylltiad ag ardal pob cyngor cyfansoddol, i'w harfer gan CBC y De-orllewin, ac nid gan y cyngorau cyfansoddol.
- (2) Mae Deddf 2000 yn gymwys mewn perthynas â CBC y De-orllewin a'i gynghorau cyfansoddol yn ddarostyngedig i'r addasiadau yn Atodlen [2].
- (3) Mae Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014⁽⁵⁾ wedi ei ddirymu.

Swyddogaethau cynllunio strategol

Rheoliad 11

Mae gan CBC y De-orllewin y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol (ac yn unol â hynny mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gymwys i CBC y De-orllewin (gweler yn enwedig adrannau 60K i 60N o'r Ddeddf honno)).

Is-bwerau

Rheoliad 12

- (1) Caniateir i CBC y De-orllewin wneud unrhyw beth—
 - (a) i hwyluso, neu
 - (b) sy'n gysylltiedig â, neu'n ffafriol i, arfer ei swyddogaethau.
- (2) Mae'r pethau y caniateir eu gwneud o dan baragraff (1) yn cynnwys—
 - (a) mynd i wariant;
 - (b) codi ffioedd;
 - (c) caffael neu waredu eiddo neu hawliau.
- (3) Ond ni chaniateir i CBC y De-orllewin gael benthyg arian.

³ Caiff hwn ei ddiweddarau i adlewyrchu'r adran berthnasol.

⁴ 2000 p. 38

⁵ 2014 Rhif 2178 (Cy. 212)

RHAN 5

Ariannu

Cyfrifo'r gyllideb

Rheoliad 13

- (1) Mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol rhaid i CBC y De-orllewin gyfrifo cyfanswm cyfanredol—
 - (a) y gwariant y mae'r CBC yn amcangyfrif yr aiff iddo mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol wrth arfer ei swyddogaethau (gan gynnwys gwariant ar gostau gweinyddu a gorbenion eraill);
 - (b) y swm y mae'r CBC yn ystyried ei fod yn briodol ei godi ar gyfer cronfa ariannol wrth gefn mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol;
 - (c) y swm y mae'r CBC yn ystyried ei fod yn briodol ei gadw fel cronfa wrth gefn i dalu am y gwariant y mae'n ystyried yr eir iddo mewn cysylltiad â blynyddoedd ariannol i ddod;
 - (d) unrhyw swm y mae'r CBC yn ystyried ei fod yn angenrheidiol i dalu unrhyw rwymedigaethau sydd heb eu talu mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn ariannol gynharach.
- (2) Mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, rhaid i CBC y De-orllewin hefyd gyfrifo cyfanswm cyfanredol y symiau y mae'n amcangyfrif y bydd yn eu cael o ffynonellau eraill ac eithrio'r cynghorau cyfansoddol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
- (3) Mewn perthynas â blwyddyn ariannol, pan fo'r swm a gyfrifir o dan baragraff (1) yn fwy na'r swm a gyfrifir o dan baragraff (2), y swm ychwanegol hwnnw yw gofynion cyllideb CBC y De-orllewin ar gyfer y flwyddyn ariannol.
- (4) Rhaid i CBC y De-orllewin gyfrifo ei ofynion cyllideb—
 - (a) mewn perthynas â'i flwyddyn ariannol gyntaf o fewn dau fis yn dilyn ei gyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf;
 - (b) mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol ddilynol, heb fod yn hwyrach na 14 Chwefror yn y flwyddyn ariannol flaenorol.
- (5) Caniateir i CBC y De-orllewin ddiwygio ei ofynion cyllideb.

Ariannu gofynion cyllideb

Rheoliad 14

- (1) Rhaid i CBC y De-orllewin bennu swm ei ofynion cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol sydd i'w briodoli i swyddogaethau ac eithrio swyddogaethau cynllunio strategol (gan gynnwys cyfran briodol o gostau gweinyddu a gorbenion eraill).

- (2) Rhaid i'r cynghorau cyfansoddol dalu'r swm a bennir o dan baragraff (1) i CBC y De-orllewin, ac mae'r gyfran o'r swm hwnnw sy'n daladwy gan bob cyngor cyfansoddol i'w phennu drwy gytundeb unfrydol yr aelodau cyngor.
- (3) Rhaid i CBC y De-orllewin bennu swm ei ofynion cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol sydd i'w briodoli i swyddogaethau cynllunio strategol (gan gynnwys cyfran briodol o gostau gweinyddu a gorbenion eraill).
- (4) Rhaid i'r cynghorau cyfansoddol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro dalu'r swm a bennir o dan baragraff (2) i CBC y De-orllewin, ac mae'r gyfran o'r swm hwnnw sy'n daladwy gan bob cyngor cyfansoddol a'r Awdurdod i'w phennu drwy gytundeb unfrydol yr aelodau cyngor, aelod Bannau Brycheiniog ac aelod Arfordir Penfro.
- (5) Pan na fo'n bosibl dod i gytundeb o ran y cyfrannau sy'n daladwy o dan baragraffau (2) neu (4), caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd bennu'r gyfran sy'n daladwy gan bob cyngor cyfansoddol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ôl y digwydd.

Cyfrifon

Rheoliad 15

- (1) Rhaid i CBC y De-orllewin—
 - (a) cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, a
 - (b) llunio cyfrifon mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- (2) Mae'r cyfarwyddydau y caiff Gweinidogion Cymru eu rhoi yn cynnwys cyfarwyddydau o ran—
 - (a) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cyfrifon a'r dull o gyflwyno'r cyfrifon;
 - (b) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r cyfrifon i'w llunio yn unol â hwy;
 - (c) gwybodaeth ychwanegol sydd i ddod gyda'r cyfrifon.

Enw

Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

ATODLEN 1 Cyf

Cyfansoddiad

Y Cadeirydd

Paragraff 1

- (1) Rhaid i CBC y De-orllewin benodi cadeirydd ac is-gadeirydd o blith ei aelodau cyngor.
- (2) Penodi cadeirydd ac is-gadeirydd fydd y mater cyntaf a drafodir yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf CBC y De-orllewin.
- (3) Rhaid i CBC y De-orllewin, ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol—
 - (a) cadarnhau bod penodiad y cadeirydd a'r is-gadeirydd yn parhau, neu
 - (b) penodi cadeirydd newydd neu is-gadeirydd newydd, neu'r ddau, o blith ei aelodau cyngor.
- (4) Mae person yn peidio â bod yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd os yw'r person yn peidio â bod yn aelod cyngor o CBC y De-orllewin.
- (5) Caiff person a benodir yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelodau eraill.
- (6) Os yw swydd cadeirydd neu is-gadeirydd yn dod yn wag, rhaid penodi i lenwi'r swydd wag yn y cyfarfod cyntaf o CBC y De-orllewin a gynhelir ar ôl i'r swydd ddod yn wag.
- (7) Os yw swydd y cadeirydd yn wag, caniateir i'r is-gadeirydd gyflawni swyddogaethau cadeirydd hyd nes y llenwir y swydd wag.

Dim taliadau cydnabyddiaeth yn daladwy i aelodau

Paragraff 2

Nid yw CBC y De-orllewin i dalu unrhyw daliadau cydnabyddiaeth i'w aelodau.

Staff

Paragraff 3

- (1) Caiff CBC y De-orllewin wneud unrhyw drefniadau ar gyfer staffio y mae'n ystyried eu bod yn briodol (ond gweler paragraffau 4 a 5).
- (2) Pan fo CBC y De-orllewin yn penodi staff o dan is-baragraff (1), maent i'w penodi o dan delerau ac amodau (gan gynnwys yr amodau o ran taliadau cydnabyddiaeth) sy'n sylweddol debyg i delerau ac amodau swyddogion yn un o'r cynghorau cyfansoddol sy'n ymgymryd â dyletswyddau rhesymol

gymharol, fel a bennir gan CBC y De-orllewin.

- (3) Caiff CBC y De-orllewin ymrwymo i gytundeb gyda—
 - (a) cyd-bwyllgor corfforedig arall (o fewn yr ystyr a roddir gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021);
 - (b) awdurdod Cymreig datganoledig arall (o fewn yr ystyr a roddir i “devolved Welsh authority” yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006⁽⁶⁾), ar gyfer rhoi staff CBC y De-orllewin at ddefnydd y pwyllgor arall neu'r awdurdod arall at ddibenion swyddogaethau'r pwyllgor neu'r awdurdod hwnnw, o dan unrhyw delerau a ddarperir gan y cytundeb.
- (4) Caniateir i awdurdod Cymreig datganoledig (o fewn yr ystyr a roddir i “devolved Welsh authority” yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006) ymrwymo i gytundeb gyda CBC y De-orllewin ar gyfer rhoi staff yr awdurdod at ddefnydd CBC y De-orllewin at ddibenion ei swyddogaethau, o dan unrhyw delerau a ddarperir gan y cytundeb.
- (5) Ni chaniateir ymrwymo i unrhyw gytundeb o dan is-baragraff (3) neu (4) oni bai yr ymgynghorir â phob aelod o staff y mae'r cytundeb yn ymwneud â hwy.
- (6) Pan fo aelod o staff CBC y De-orllewin yn cael ei roi at ddefnydd awdurdod Cymreig datganoledig arall yn rhinwedd cytundeb o dan is-baragraff (3)—
 - (a) at ddibenion blwydd-daliadau, mae gwasanaeth a ddarperir gan yr aelod o staff yn wasanaeth a ddarperir i CBC y De-orllewin, a
 - (b) at ddibenion unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r awdurdod Cymreig datganoledig arall, mae'r aelod o staff i'w drin fel aelod o staff yr awdurdod hwnnw.
- (7) Pan fo aelod o staff awdurdod Cymreig datganoledig yn cael ei roi at ddefnydd CBC y De-orllewin yn rhinwedd cytundeb o dan is-baragraff (4), at ddibenion y Rheoliadau hyn ac unrhyw ddeddfiad arall sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau CBC y De-orllewin, mae'r aelod o staff i'w drin fel aelod o staff CBC y De-orllewin.

Trosglwyddo staff

Paragraff 4

Pan fo aelod o staff a benodir gan CBC y De-orllewin wedi ei drosglwyddo i'r CBC o gyngor cyfansoddol, mae darpariaethau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006⁽⁷⁾ ac eithrio rheoliadau 4(6) a 10 yn gymwys i'r trosglwyddiad, pa un a yw'n drosglwyddiad perthnasol at ddibenion y rheoliadau hynny ai peidio.

Swyddogion gweithredol

Paragraff 5

⁶ 2006 p. 32

⁷ O.S. 2006/246

- (1) Rhaid i CBC y De-orllewin benodi—
 - (a) Prif Weithredwr,
 - (b) Swyddog Monitro,
 - (c) Prif Swyddog Ariannol,
 - (d) Prif Swyddog Llywodraethiant,(y cyfeirir atynt ar y cyd yn y Rheoliadau hyn fel “swyddogion gweithredol”).
- (2) Am ddarpariaeth bellach ynghylch y personau a grybwyllir yn is-baragraff (1) gweler [Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2021].

Trafodion a phleidleisio

Paragraff 6

- (1) Nid oes unrhyw fater i’w drafod mewn unrhyw gyfarfod o CBC y De-orllewin oni bai—
 - (a) bod y cadeirydd yn bresennol yn y cyfarfod, a
 - (b) bod dim llai na 70% o’r aelodau â phleidlais yn bresennol.
- (2) O ran unrhyw gwestiwn sydd i’w benderfynu gan CBC y De-orllewin, ac eithrio penderfyniad o ran y gyfran sy’n daladwy o dan reoliad 14(2) neu (4), un bleidlais sydd gan bob aelod â phleidlais ac mae’r cwestiwn i’w benderfynu drwy fwyafrif syml.
- (3) Os yw nifer y pleidleisiau yn gyfartal, nid yw’r mater yn cael ei dderbyn (yn ddarostyngedig i is-baragraff (4)).
- (4) Os yw nifer y pleidleisiau yn gyfartal o ran unrhyw gwestiwn sy’n ymwneud ag arfer swyddogaethau cynllunio strategol, y cadeirydd sydd â’r bleidlais fwrw.
- (5) Caniateir defnyddio gweithdrefn bleidleisio wahanol yn lle’r weithdrefn a nodir yn y paragraff hwn os yw pob aelod â phleidlais yn cytuno.
- (6) Caiff cytundeb i ddefnyddio gweithdrefn bleidleisio wahanol fod yn gymwys i—
 - (a) pob pleidlais a gynhelir gan CBC y De-orllewin, neu
 - (b) pleidleisiau ar unrhyw gwestiynau a bennir yn y cytundeb.
- (7) Pan fo gweithdrefn bleidleisio wahanol i’w chytuno mewn perthynas â phob pleidlais a gynhelir gan CBC y De-orllewin, mae’r cyfeiriad yn is-baragraff (5) at “pob aelod â phleidlais” yn cynnwys pob aelod cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn yn rhinwedd rheoliad 8(6).
- (8) Pan fo gweithdrefn bleidleisio wahanol i’w chytuno mewn perthynas â phleidleisiau ar unrhyw gwestiynau a bennir yn y cytundeb, nid yw’r cyfeiriad yn is-baragraff (5) at “pob aelod â phleidlais” ond yn cynnwys yr aelodau cyfetholedig hynny sydd â hawl i bleidleisio ar y cwestiynau penodedig.
- (9) Pan fo gweithdrefn bleidleisio wahanol i’w chytuno mewn perthynas â—

(a) pob pleidlais a gynhelir gan CBC y De-orllewin, neu
(b) pleidlais ar gwestiwn sy'n ymwneud â swyddogaethau cynllunio strategol,
mae'r cyfeiriad yn is-baragraff (5) at "bob aelod â phleidlais" yn cynnwys aelod Bannau Brycheiniog ac aelod Arfordir Penfro.

(10) Pan gytunir ar weithdrefn bleidleisio wahanol, rhaid ei nodi yn y rheolau sefydlog.

Cyfarfodydd

Paragraff 7

- (1) Rhaid i CBC y De-orllewin gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mhob blwyddyn ariannol ar ddyddiad a bennir gan y CBC.
- (2) Fodd bynnag, rhaid cynnal y cyfarfod cyffredinol blynyddol a gynhelir yn y flwyddyn ariannol gyntaf cyn diwedd Medi 2021.
- (3) Mae'r cyfarfod cyffredinol blynyddol a gynhelir yn y flwyddyn ariannol gyntaf i'w gadeirio gan yr aelod cyngor ar gyfer cyngor sir Gaerfyrddin hyd nes y penodir cadeirydd (ac yn unol â hynny mae'r cadeirydd i gadeirio gweddill y cyfarfod).
- (4) Caiff CBC y De-orllewin gynnal cyfarfodydd eraill ar ddyddiadau a bennir gan y CBC.
- (5) Caniateir i gyfarfod eithriadol o CBC y De-orllewin gael ei alw ar unrhyw adeg gan unrhyw aelod â phleidlais (gan gynnwys unrhyw aelod cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn yn rhinwedd rheoliad 8(6)).
- (6) Rhaid i'r cadeirydd (neu'r is-gadeirydd os nad yw'r cadeirydd yn bresennol) gadeirio unrhyw gyfarfod o CBC y De-orllewin.

Blynyddoedd ariannol

Paragraff 8

Blwyddyn ariannol gyntaf CBC y De-orllewin yw'r cyfnod sy'n dechrau â [dyddiad dod i rym y rheoliadau] ac sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2022.

Is-bwyllgorau

Paragraff 9

- (1) Caniateir i CBC y De-orllewin sefydlu is-bwyllgorau.
- (2) Ni chaiff is-bwyllgor ond arfer, ar ran CBC y De-orllewin, y swyddogaethau hynny a bennir gan CBC y De-orllewin (ond gweler paragraffau 12 a 13).

- (3) Rhaid i CBC y De-orllewin bennu aelodaeth a gweithdrefnau unrhyw is-bwyllgor.
- (4) Caniateir i CBC y De-orllewin benodi personau nad ydynt yn aelodau o'r CBC i is-bwyllgor ac nid oes angen i is-bwyllgor gynnwys unrhyw aelodau o'r CBC (yn ddarostyngedig i is-baragraff (5)).
- (5) Pan fo is-bwyllgor yn arfer swyddogaethau cynllunio strategol rhaid i aelod Bannau Brycheiniog ac aelod Arfordir Penfro fod yn aelodau o'r is-bwyllgor.
- (6) Rhaid nodi gweithdrefnau is-bwyllgor yn y rheolau sefydlog.

Rheolau Sefydlog

Paragraff 10

- (1) Rhaid i CBC y De-orllewin wneud rheolau sefydlog ar gyfer rheoleiddio ei drafodion a'i fusnes i'r graddau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan y Rheoliadau hyn nac unrhyw ddeddfiad arall (pryd bynnag y cafodd ei basio neu ei wneud).
- (2) Caniateir amrywio'r rheolau sefydlog neu eu dirymu a'u hamnewid.

Cod ymddygiad

Paragraff 11

Rhaid i CBC y De-orllewin sefydlu cod ymddygiad o ran ymddygiad ei aelodau a'i aelodau staff (gan gynnwys y swyddogion gweithredol), a chaniateir amrywio, dirymu neu ddisodli'r cod hwnnw.

Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu

Paragraff 12

- (1) Rhaid i CBC y De-orllewin sefydlu is-bwyllgor (o'r enw yr is-bwyllgor trosolwg a chraffu) i—
 - (a) adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau CBC y De-orllewin;
 - (b) llunio adroddiadau neu gyflwyno argymhellion i CBC y De-orllewin neu ei swyddogion gweithredol mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau hynny;
 - (c) llunio adroddiadau neu gyflwyno argymhellion i CBC y De-orllewin neu ei swyddogion gweithredol ar faterion sy'n effeithio ar ardal y cyd-bwyllgor corfforedig neu drigolion yr ardal honno;
 - (d) arfer unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan CBC y De-orllewin.
- (2) Rhaid i'r rheolau sefydlog gynnwys darpariaeth sy'n rheoleiddio dull yr is-bwyllgor trosolwg a chraffu o arfer ei swyddogaethau.

Is-bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio

Paragraff 13

- (1) Rhaid i CBC y De-orllewin sefydlu is-bwyllgor (o'r enw yr is-bwyllgor llywodraethiant ac archwilio) i—
 - (a) adolygu materion ariannol CBC y De-orllewin a chraffu arnynt;
 - (b) llunio adroddiadau a chyflwyno argymhellion mewn perthynas â materion ariannol CBC y De-orllewin;
 - (c) adolygu ac asesu trefniadau CBC y De-orllewin ar gyfer rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant corfforaethol;
 - (d) llunio adroddiadau a chyflwyno argymhellion i CBC y De-orllewin neu ei swyddogion gweithredol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;
 - (e) goruchwyllo trefniadau archwilio mewnol ac allanol CBC y De-orllewin;
 - (f) adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a lunnir gan CBC y De-orllewin;
 - (g) arfer unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan CBC y De-orllewin.
- (2) Rhaid i'r rheolau sefydlog gynnwys darpariaeth sy'n rheoleiddio dull yr is-bwyllgor llywodraethiant ac archwilio o arfer ei swyddogaethau.

ATODLEN 2 Cyf

Diwygio Deddf Trafnidiaeth 2000

Paragraff 1

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2000 yn gymwys mewn perthynas â CBC y De-orllewin a'i gynghorau cyfansoddol gyda'r addasiadau a ganlyn.

Paragraff 2

Mae adran 108 (cynlluniau trafndiaeth lleol) i'w ddarllen fel pe bai—

- (a) y canlynol wedi ei roi yn lle is-adran (1)—
“(1) The South West Wales Corporate Joint Committee (“the South West Wales CJC”) must develop policies, to be implemented under subsection (1A), for the promotion and encouragement of safe, integrated, efficient and economic transport to, from and within its area.”;
- (b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (1)—
“(1A) Each local transport authority in Wales whose area falls within the area of the South West Wales CJC must carry out their functions so as to implement the policies developed under subsection (1).”;
- (c) y canlynol wedi ei roi yn lle is-adran (2A)—
“(2A) The South West Wales CJC must also develop policies for the implementation by the local transport authorities in its area of the Wales Transport Strategy.”;
- (d) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (2A)—
“(2B) Each local transport authority in Wales whose area falls within the area of the South West Wales CJC must carry out their functions so as to implement the policies developed under subsection (2A).”;
- (e) y canlynol wedi ei roi yn lle is-adran (3A)—
“(3A) The South West Wales CJC must prepare a document to be known as the regional transport plan containing its policies under subsections (1) and (2A).”;
- (f) y canlynol wedi ei roi yn lle is-adran (5)—
“(5) In this Part “regional transport policies”, in relation to the South West Wales CJC, means policies developed under subsection (1).”
- (g) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (5)—
“(6) In this Part, references to the area of the South West Wales CJC are to be interpreted in accordance with [regulation 4] of the South West Wales Corporate Joint Committee Regulations 2021.”;
- (h) pennawd yr adran yw “Local and Regional Transport Plans”.

Paragraff 3

Mae adran 109A i'w darllen fel a ganlyn—

“109A Approval of regional plan

(1) The South West Wales CJC must submit its regional transport plan to the Welsh Ministers for their approval.

(2) If the Welsh Ministers refuse to approve the plan—

- (a) they must give the South West Wales CJC a statement of their reasons for its refusal, and
 - (b) the South West Wales CJC must prepare another regional transport plan and submit the plan to the Welsh Ministers for their approval.
- (3) If the Welsh Ministers approve a plan under this section, the plan has effect when the approval is given.
- (4) The Welsh Ministers may approve a regional transport plan under this section if (but only if) they consider—
- (a) that the plan is consistent with the Wales Transport Strategy, and
 - (b) that the policies contained in the plan are adequate for the implementation in the South West Wales CJC’s area of the Strategy.”

Paragraff 4

Mae adran 109B i’w darllen fel a ganlyn—

- “109B Further provision about the regional plan
- (1) The South West Wales CJC must keep its regional transport plan under review and alter it if it considers it appropriate to do so.
 - (2) The South West Wales CJC must in particular review the plan as soon as practicable after the publication of the Wales Transport Strategy or any revision of it.
 - (3) The South West Wales CJC must replace its regional transport plan not later than five years after the date on which the plan was approved under section 109A.
 - (4) Section 109A applies to a replacement plan as altered as it applies to a plan as originally prepared.
 - (5) The South West Wales CJC shall be taken to have complied with subsection (3) if (but only if)—
 - (a) it submits its replacement plan to the Welsh Ministers for their approval under section 109A before the end of the five year period mentioned in subsection (3), and
 - (b) the Welsh Ministers approve the plan under section 109A (whether the approval is given before or after the end of that five year period).
 - (6) If the South West Wales CJC fails to comply with subsection (3) because it fails to submit its replacement plan to the Welsh Ministers before the end of the five year period mentioned in that subsection, the South West Wales CJC must replace its regional transport plan as soon as practicable after the expiry of the five year period.
 - (7) If the South West Wales CJC fails to comply with subsection (3) because the Welsh Ministers refuse to approve a plan submitted to them under section 109A, it must replace its regional transport plan as soon as practicable after the refusal.
 - (8) As soon as practicable after its plan, or its plan as altered, has been approved under section 109A, the South West Wales CJC must—
 - (a) publish the plan or the plan as altered in such manner as it thinks fit, and

- (b) send a copy of it to such persons (if any) as may be specified in guidance under section 112(1).
- (9) The South West Wales CJC must also—
- (a) ensure that a copy of its regional transport plan is available for inspection (at all reasonable hours) at such places it thinks fit,
 - (b) give notice, by such means as it thinks expedient for bringing it to the attention of the public, as to the places at which a copy of it may be inspected, and
 - (c) supply a copy of it (or any part of it) to any person on request, either free of charge or at a charge representing no more than the cost of providing the copy.”

Paragraff 5

Mae adran 109C i'w thrin fel pe bai wedi ei hepgor.

Paragraff 6

Mae adran 112 i'w darllen fel a ganlyn—

“112 Regional plan: supplementary

(1) In carrying out its functions under sections 108 to 109B, the South West Wales CJC must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers concerning—

- (a) the content of the regional transport plan,
- (b) the preparation of such plans,
- (c) the alteration and replacement of such plans, and
- (d) the publication and making available of such plans as originally made and as altered or replaced.

(2) Subsection (3) applies in relation to the development of policies under section 108(1) and the implementation under section 108(1A) of those policies.

(3) The South West Wales CJC, or a local transport authority within the area of the CJC (as the case may be), must have regard to the transport needs of disabled persons (within the meaning of the Equality Act 2010) and of persons who are elderly or who have mobility problems.”

Paragraff 7

Mae adran 113A i'w thrin fel pe bai wedi ei hepgor.

Paragraff 8

Mae adran 113B i'w darllen fel a ganlyn—

“113B Directions concerning regional plan

(1) The Welsh Ministers may give general or specific directions to the South West Wales CJC as to the manner in which it is to carry out its functions under sections 108 to 109B.

(2) The Welsh Ministers may give general or specific directions to a local transport authority whose area falls within the area of the South West Wales

CJC as to the manner in which they are to carry out their functions under section 108.

(3) Directions given under subsection (1) may include in particular directions as to the timetable in accordance with which the regional transport plan or alterations to the plan must be prepared.

(4) Directions given under subsection (2) may include in particular directions as to—

- (a) the action required to be taken to implement the policies contained in the regional transport plan;
- (b) as to the steps required to be taken to remove the effects of action which is incompatible with those policies.

(5) Directions under this section—

- (a) must be in writing;
- (b) may be varied or revoked by further directions under this section.

(6) The Welsh Ministers must consult—

- (a) in relation to a direction under subsection (1), the South West Wales CJC,
- (b) in relation to a direction under subsection (2), the local transport authority concerned,

before giving, varying or revoking the direction.

(7) The Welsh Ministers may consult any other persons they consider appropriate in relation to giving, varying or revoking a direction under subsection (1) or (2).”